# YR ATODLEN

## Addasiadau i Ddeddfau Seneddol sy'n gysylltiedig â diddymu Awdurdodau Iechyd Cymru a chreu Byrddau Iechyd Lleol

## Deddfau Seneddol

### Deddf Addysg 1996 (p.56)

**26.**—(1) Diwygir Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 322 (dyletswydd awdurdodau iechyd neu awdurdodau lleol i helpu awdurdodau addysg lleol) —

(a) yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board" ac ar ôl y geiriau "help of the" mewnosoder "board,";

(b) yn is-adran (2) ar ôl y geiriau "An authority" mewnosoder ", a board";

(c) yn is-adran (3)(a) yn lle "Health Authority rhodder "Local Health Board" ac yn lle "authority" rhodder "board"; a

(ch) yn is-adran (4) ar ôl y geiriau "an authority" mewnosoder ", a board".

(3) Yn adran 332 (dyletswydd awdurdod iechyd, ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, neu ymddiriedolaeth gwasanaeth iechyd gwladol i hysbysu rhiant etc) —

(a) yn y pennawd ac yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board"; a

(b) yn is-adrannau (2) a (3) yn lle "Authority" ym mhob man y digwydd rhodder "Board".